

Creu S4C ar gyfer y Dyfodol

Gorffennaf 2018

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Creu S4C ar gyfer y Dyfodol

Croesawa UCAC y cyfle hwn i ymateb i ymgynghoriad Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar greu S4C ar gyfer y dyfodol.

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol, tiwtoriaid a darlithwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru.

1. Gwerth a Phwysigrwydd S4C

- 1.1. Fel noda ymateb Llywodraeth San Steffan i adolygiad annibynnol 'Creu S4C ar gyfer y dyfodol', S4C yw'r unig ddarlledwr Cymraeg yng Nghymru, ac yn wir yn y byd.
- 1.2. Mae UCAC yn gweld gwerth y sianel o safbwynt ieithyddol, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd yn eu hystyron ehangaf.
- 1.3. Mae arlwy S4C yn creu cefnlen a chefnogaeth i waith y system addysg ar bob lefel – gan ddarparu deunydd am ystod eang iawn o bynciau, wedi'i anelu at amryw o gynulleidfaoedd, ac mewn cyweiriau gwrthgyferbyniol sy'n apelio'n eang. Mae hyn yn werthfawr o safbwynt nid yn unig normaleiddio'r iaith Gymraeg yn y cyd-destunau hyn, ond o safbwynt creu cynnwys gwreiddiol o safon uchel a all gefnogi dysgu ac addysgu – yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – ar bob lefel o'r system addysg o'r Cyfnod Sylfaen, i Addysg Uwch, a phrentisiaethau, gan gynnwys wrth gwrs dysgu'r Gymraeg fel pwnc/iaith.
- 1.4. Yn ogystal, mae'n rhoi gofod i drafod materion sy'n berthnasol i Gymru mewn cyd-destun gyfan gwbl Gymreig. Er enghraifft, mae'n un o'r ffynonellau cyfyngol prin sy'n gallu cynnal trafodaeth am wleidyddiaeth Gymreig, gan gynnwys unrhyw un o'r meysydd polisi datganoledig (megis addysg), heb fod hynny fel atodiad i drafodaeth 'ehangach', yn cynnig gwybodaeth anghyflawn neu ddrwslyd, neu'n cael ei anwybyddu'n llwyr. Mae'n werthfawr fel llais Gymreig a Chymraeg mewn tirwedd gynyddol unffurf a monolithig o safbwynt newyddiadurol a ieithyddol.
- 1.5. Mae'r swyddi sy'n cael eu creu gan fodolaeth S4C yn swyddi sy'n creu cymhellion i bobl ddysgu'r Gymraeg, ac i ddefnyddio a datblygu eu Cymraeg. Mae darlledu yn un o'r meysydd ble mae'n rhydd dangos bod posibiladau gyrfaoel o bob math ble mae'r gallu i siarad y Gymraeg yn fanteisiol.

2. Argymhellion ac Ymateb Llywodraeth San Steffan

- 2.1. **Argymhelliad 1:** Byddem yn croesawu ehangu cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C i gynnwys gwasanaethau digidol ac ar-lein, er mwyn hwyluso'r gwaith o ddatblygu'r meysydd hyn ac adeiladu ar y gwaith da a wnaed eisoes.
- 2.2. **Argymhelliad 4:** Mynega UCAC bryder ynghylch y dulliau ariannu a argymhellwyd gan yr Adolygiad ac a gefnogwyd yn ymateb Llywodraeth San Steffan. Nid oes modd i ni gytuno bod y model hwn yn gallu cynnig 'sylfaen sefydlog a thryloyw i gyllid S4C' at y dyfodol.
- 2.3. Mae setliad fflat mewn arian parod am ddwy flynedd yn doriad mewn termau real, ac mae'n amlwg y bydd sgil effeithiau ar y sianel i doriad *pellach* o'r fath. Bydd cael gwared ar y cymorth grant a ddaw o'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ergyd pellach.
- 2.4. Pryderwn am yr argymhelliad i ddarparu arian 'cyhoeddus' S4C drwy'r ffi drwydded yn llwyr o 2022/23 ymlaen, a hynny am nifer o resymau:
 - annibyniaeth olygyddol S4C, a'r canfyddiad (a'r realiti) ohono fel darlledwr annibynnol
 - lleihad o ganlyniad o ran y blwraliaeth lleisiau newyddiadurol yng Nghymru ac yn y Gymraeg sydd eisoes yn beryglus o gyfyngedig
 - diffyg atebolrwydd i gynulleidfaoedd yng Nghymru

- y lefelau cyllido y bydd modd i S4C eu sicrhau o fewn cyd-destun o flaenoriaethau sy'n cystadlu, ac yn gadarn iawn o fewn cyd-destun Prydeinig yn hytrach na Chymreig – os na fydd fformiwla o unrhyw fath na sicrwydd mewn statud

3. Galwadau

- 3.1. Sicrhau fformiwla ariannu i S4C sy'n rhoi rhywfaint o sicrhau dros gyfnodau penodol o amser, ac sydd – o leiaf – yn cynyddu yn unol â chwyddiant
- 3.2. Ymchwiliad llawn i ystyried yr achos dros ddatganoli pwerau darlledu i Gymru



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

 facebook.com/AthrawonCymru  twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru